PE & School Sport
AG a Chwaraeon Ysgol

Adroddiadau Effaith Awdurdod Lleol

Enw'r Awdurdod Lleol: Wrecsam

Dyddiad yr Adroddiad: Tymor yr Haf 2010

Enw'r Ymgynghorydd: Tegid Phillips

Cyflwyniad

Nod yr adroddiad hwn yw dechrau sefydlu effaith y cynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Seiliwyd yr adroddiad hwn ar y dystiolaeth a gasglwyd gan yr ymgynghorydd ym mis Ebrill 2010, yn ystod ei ymweliadau â chyfanswm o saith ysgol - pum ysgol gynradd a dwy ysgol fabanod. Dewiswyd yr ysgolion gan yr awdurdod er mwyn rhoi amrywiaeth o leoliadau e.e. cymysgedd o ysgolion trefol a gwledig, amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a chymdeithasol, gwahanol grwpiau oedran, ysgolion o wahanol faint ac amrywiaeth o ran pa mor hir y maent yn rhan o brosiect AGChY. Am resymau logistaidd, nid oedd ymweld ag ysgol uwchradd yn bosibl fel rhan o'r astudiaeth hon.

Arsylwyd ar gyfanswm o saith gwers, un ym mhob ysgol. Gwersi gymnasteg oedd pedair o'r gwersi, gwersi dawns oedd dwy ohonynt a gwers athletau oedd un. Fel rhan o'r ymweliad, cynhaliwyd trafodaethau ym mhob ysgol gydag arweinydd y pwnc, y pennaeth yn ogystal â grŵp o ddisgyblion a ddewiswyd.

At hynny, cafodd yr ymgynghorydd gyfarfodydd gyda'r rhai a oedd yn rheoli'r prosiect yn yr awdurdod. Cafodd amrywiaeth o ddogfennau i gefnogi ac i roi enghreifftiau o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn hefyd.

Y Prif Ganfyddiadau

ARWEINYDDIAETH a RHEOLAETH

Mae'r prosiect AGChY yn fwyfwy amlwg yn yr Awdurdod Lleol (ALl). Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, daeth AGChY yn rhan fwy annatod o'r cysyniad o Wella Ysgolion.

Mae cysylltiadau agos rhwng AGChY â nifer o dimau eraill e.e. Canolfannau Gweithgareddau Antur, Hamdden a swyddogion Datblygu Chwaraeon penodol. Mae cysylltiad agos rhyngddo â phrosiectau eraill fel Chwaraeon y Ddraig, Ysgolion Iach ac Activemarc Cymru.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr awdurdod yn dangos nifer o agweddau cadarnhaol.

- Bellach, mae proffil AGChY yn codi'n barhaol yn yr awdurdod.
- Erbyn hyn, mae'r awdurdod yn rheoli'r cynllun AGChY yn dda. Pennaeth y Gwasanaeth ar gyfer y grŵp oedran 8-14 yw'r rheolwr llinell ar hyn o bryd. Mewn ymdrech i fwyafu potensial AGChY, mae tîm rheoli AGChY yr ALl wedi gweithredu nifer o gynlluniau, cyflwynwyd rhai ohonynt gan y rheolwr llinell blaenorol.
- O ganlyniad, mae'r swyddog AGChY wedi cyflwyno gwybodaeth i, ac wedi dod yn rhan annatod o nifer o grwpiau pwysig o fewn yr ALl e.e. Tîm Rheoli'r Adran, y Tîm Addysg ar y Cyd, Grŵp Cydlynydd Strategol, Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam a Grŵp Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd.
- Mae effaith y cynllun yn cael ei fonitro ac adroddir amdano'n rheolaidd
    - mewn cyfarfodydd Canolfan Ddatblygu tymhorol (CDd);
    - mewn cyfarfodydd tymhorol gyda'r ymgynghorydd a Swyddog Rhanbarthol Pobl Ifanc Egniol (PIE) Chwaraeon Cymru;
    - trwy ddefnyddio systemau cynllunio ac adrodd AGChY;
    - trwy rannu gwybodaeth gyda swyddogion gwella'r ALl;
    - trwy adborth gan y gwahanol fentoriaid, y rhai sydd yn cael eu mentora a'r arweinwyr partneriaeth;
    - cynlluniau gwaith cwrs;

- adroddiad effaith yr ysgol – bob tymor;
- hunan adolygiad/adolygiad AG ysgolion;
- gwerthusiadau cyrsiau;
- trafodaethau swyddogion yr ALl gyda'r Penaethiaid (ymweliadau DDA);
- cyfarfodydd clwstwr o ysgolion;
- cylch ansawdd AG – cyfarfodydd uwchradd.

- Ar ddau achlysur, trefnwyd cyrsiau AGChY ar gyfer dyddiau pan oedd ysgolion ar gau – gan gynyddu nifer y cyfranogwyr a gostwng costau'r diwrnodau neilltuol hynny. Bwriedir cynnal mwy o gyrsiau ar ddiwrnodau pan fydd ysgolion ar gau yn y dyfodol.
- Manteisiwyd ar tua 800 o gyfleoedd DPP yn ystod oes y prosiect yn Wrecsam.
- Yn aml, rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau AGChY a weithredwyd yn ddiweddar e.e. erbyn diwedd y flwyddyn academaidd hon, bydd tua 66% o arweinwyr pwnc AG yn ysgolion cynradd yr ALl wedi mynychu'r cwrs newydd i Arweinwyr Pwnc.
- Mae nifer y mentoriaid a ddefnyddir yn yr AALl yn codi ar hyn o bryd, mae chwech bellach yn cael eu defnyddio. I raddau helaeth, bu'r broses yn fanteisiol i'r rhai perthnasol.
- Mae rhai Arweinyddion Partneriaeth Canolfan Ddatblygu yn chwarae rhan weithredol a phwysig yn llwyddiant y prosiect yn y sir e.e. cynorthwyo'r cydlynydd i fonitro ac adrodd ar y cynnydd yn y Canolfannau Datblygu.

MAE GWEDDILL YR ADRODDIAD YN YMWNEUD YN BENODOL Â'R WYBODAETH A GAFWYD YN YSTOD YR YMWELIADAU Â'R SAITH YSGOL

- Ym mhob un o'r ysgolion bron, mae targedau AGChY wedi'u cynnwys yn y CGY neu yn yr adolygiadau pwnc, a cânt eu monitro yn rheolaidd. Mewn nifer o achosion, penderfynwyd ar y targedau hyn ar ôl cwblhau hunanasesiad pwnc.
- Mae'r holl arweinwyr pwnc yn ymrwymedig i'r prosiect AGChY ac maent yn awyddus i fwyafu ei gyfraniad posibl i'w hysgol.

- Roedd pob ysgol o'r farn bod AGChY wedi codi proffil a phwysigrwydd cydnabyddedig AG yn yr ysgol a'r gymuned leol.
- O ganlyniad i gyfranogiad uniongyrchol yr ysgolion ym mhrosiect AGChY, addaswyd neu cynlluniwyd amgylchfyd yr ysgol i annog mwy o ddisgyblion na chynt i gyfranogi mewn gweithgaredd corfforol e.e. waliau clogfaen/traws, mapio tir pob ysgol yn yr awdurdod ar gyfer gweithgareddau cyfeiriadu etc.
- Roedd athrawon yr ysgolion cynradd o'r farn bod nifer y cyrsiau a gynigir yn briodol.
- Roedd pob ysgol yn talu teyrnged arbennig i'r gefnogaeth a geir gan gydlynydd AGChY yr ALl.

CWRICWLWM

- Roedd pob ysgol yn cynnig cwricwlwm eang.
- Gwnaed ymdrech bendant ym mhob un o'r ysgolion bron, i ymateb i ofynion Gorchmynion 2008.
- Yn CA2 roedd y disgyblion yn cael y targed o ddwy awr o leiaf o AG ar y cwricwlwm.
- Oherwydd natur y prosesau yn y Cyfnod Sylfaen, roedd cyfrif yr amser a oedd yn cael ei neilltuo ar gyfer Datblygiad Corfforol a Chreadigol yn fwy o broblem. Er hynny, roedd pob un o'r ysgolion o'r farn bod o leiaf dwy awr yn cael eu neilltuo, mewn gwahanol ffurf, i'r meysydd dysgu hyn.
- Mewn nifer o ysgolion, roedd yr amser a neilltuir i AG wedi cynyddu o ganlyniad i'w cyfranogiad yn AGChY a'r ffaith bod yr athrawon yn teimlo'n fwy hyderus yn sgil hynny.
- Yr elfen gymnasteg o faes Gweithgareddau Creadigol yw'r rhaglen astudio sydd wedi'i haddasu fwyaf yn y cwricwlwm AG. Roedd llawer o ysgolion o'r farn bod digon o hyfforddiant/cyrsiau wedi'u clustnodi i'r agwedd benodol hon ac y dylid rhoi'r un math o sylw i ddawns.
- Mewn achosion lle mae athrawon wedi mynychu cyrsiau ar fodiwl 1 a 2 mewn Gymnasteg, mae cynnydd a dilyniant i'w gweld ar draws llawer o'r gwaith. Mewn ysgolion lle mae'r athrawon ond wedi mynychu modiwl 1 o'r cwrs

Gymnasteg, neu, pan na chafodd y wybodaeth ei rhannu'n effeithiol, ychydig o gynnydd a dilyniant a welwyd.

- Yn yr ysgolion bach a ddilynodd unedau a chynlluniau gwersi cwrs Modiwl 1 Gymnasteg ar y CD, er enghraifft, roedd y trefniadau logistaidd yn ei gwneud yn anodd mesur y cynnydd a'r dilyniant oherwydd bod y dosbarthiadau, yn ddieithriad, yn cynnwys grwpiau oedran cymysg.

- Roedd yr ysgolion a oedd yn cynnwys grŵp oedran y Cyfnod Sylfaen yn awyddus iawn i gael hyfforddiant yn y cyrsiau AGChY ar Ddatblygiad Corfforol a Chreadigol.

- O ran Iechyd, Ffitrwydd a Lles (IFfLl), mae ysgolion wedi integreiddio rhai o'r canlyniadau dysgu a gweithgareddau ymarferol mewn rhaglenni astudio eraill e.e. mewn gweithgareddau cystadleuol neu greadigol, ar sail drawsgwricwlaidd / pwnc.

- Mae prosiect AGChY wedi cael effaith ddiamheuol a sylweddol ar y broses drosglwyddo - o safbwynt cymdeithasol ac academaidd - yn enwedig o CA2 - CA3. Roedd y cydweithio effeithiol mewn cyfarfodydd CDd yn gydran annatod yn y datblygiad hwn. Roedd rhai athrawon o'r farn y byddai rhoi cyfle i athrawon cynradd arsylwi ar safonau ysgolion uwchradd yn ddatblygiad buddiol.

- Mae cymryd rhan yn y prosiect AGChY wedi effeithio'n gadarnhaol ar gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol hefyd. Dywedodd Pennaeth un ysgol 'bod yr hyder y mae disgyblion wedi'i ennill yn y cwricwlwm AG yn eu hysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol - yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol'.

ADDYSGU A DYSGU

A. ADDYSGU

- Byddai'r dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai cynyddu hyder athrawon, a dileu eu swildod, wrth addysgu AG, yw effaith bennaf prosiect AGChY.

- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn credu bod y prosiect AGChY wedi effeithio ar eu dull o ddysgu mewn gwersi AG ac maent wedi newid o ddefnyddio dull gorchmynnol i ddull sydd yn canolbwyntio mwy ar y plentyn.

- Teimlai un athro bod ‘AG bellach yn rhan fwy annatod o addysgu a chynlluniau trawsgwricwlaidd’ ers i’r ysgol weithredu AGChY.

- Mae pedair cydran y Fframwaith Sgiliau yn dod yn rhan hanfodol o gynllunio a chyflwyniadau athrawon – yn enwedig sgiliau cyfathrebu a meddwl.

- Mynegodd yr holl athrawon eu hedmygedd o brosiect AGChY a’i effaith o fewn eu hysgolion perthnasol. Mae ansawdd yr adnoddau a’r cyrsiau, a’u heffaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu wedi creu argraff neilltuol arnynt.

- Mynegodd yr holl athrawon eu diolchgarwch i’r awdurdod lleol am eu cefnogaeth ac am drefnu prosiect AGChY, a’i effaith ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu yn eu hysgolion. Mewn un ysgol, roedd ‘athro a oedd yn anniddig ag AG’ wedi cyflwyno gwersi dawns enghreifftiol i aelodau eraill o’r staff ar ôl mynychu Cwrs Dawns AGChY.

- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn teimlo bod rhaglen fonitro AGChY wedi cael effaith gadarnhaol ar allu a hyder athrawon i roi gwersi AG. Roedd rhai ysgolion yn teimlo y byddai’n well cael athro ysgol gynradd fel mentor.

- Ym mron pob un/pob un o wersi yr arsylwyd arnynt, roedd yr athrawon yn:

    1. rhoi gwersi a oedd yn dilyn trefn strwythuredig;
    2. esiamplau da;
    3. gwneud cysylltiadau â dysgu blaenorol;
    4. rheoli’r dosbarth yn effeithiol;
    5. gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad;
    6. creu awyrgylch cadarnhaol;
    7. gosod eu hunain mewn man priodol i arsylwi ar waith y disgyblion;
    8. gweithredu patrymau gweithio diogel;
    9. arddangos dulliau rheoli dosbarth effeithiol;
    10. defnyddio eu llais yn briodol;
    11. gosod tasgau a oedd yn briodol ar gyfer llawer o’r disgyblion;
    12. cynnwys y disgyblion mewn asesu eu cyflawniadau nhw eu hunain a rhai disgyblion eraill;

13. trafod y canlyniadau dysgu gyda'r disgyblion.

- Mewn nifer o'r gwersi yr arsylwyd arnynt, roedd yr athrawon yn:
    1. defnyddio termau priodol;
    2. trefnu'r offer/cyfarpar yn effeithiol;
    3. ymyrryd i annog gwelliant;
    4. annog cyfranogiad llawn;
    5. creu sefyllfaoedd i annog y cyfranogiad pennaf wrth gyflawni tasgau corfforol.
- Mewn oddeutu hanner y gwersi, roedd yr athrawon yn:
    1. gwneud defnydd effeithiol o TGCh, gan gynnwys yr adnoddau AGChY;
    2. defnyddio amrediad o ddulliau addysgu;
    3. dangos bod ganddynt wybodaeth dda o'r pwnc;
    4. rhoi arddangosiadau da;
    5. rhoi adborth a oedd yn hwb i'r disgyblion ddysgu.
- Mewn ychydig o'r gwersi, roedd yr athrawon yn:
    1. cyflwyno gwersi lle'r oedd y disgyblion yn gorfforol egniol am ran briodol o'r wers;
    2. darparu tasgau a oedd yn ymestyn y disgyblion mwy medrus;
    3. rhoi sylw i arsylwadau'r disgyblion;
    4. rhoi cyfle i ddisgyblion newid eu rhaglen yn dilyn gwerthusiadau eu cyd ddisgyblion;
    5. darparu cyfnod cynhesu a oedd yn briodol i oedran y grŵp;
    6. cynnwys amser ymdawelu ar derfyn gwersi.

B. DYSGU

- O'r trafodaethau a gafwyd gyda'r athrawon, roedd y dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod disgyblion yn ymgysylltu'n well yn ystod amser chwarae a'r awr ginio, ac o ganlyniad roedd eu hymddygiad yn well bryd hynny hefyd.

- Ym mhob/bron pob gwers, roedd y disgyblion:

    1. yn gweithio'n effeithiol ar eu pennau eu hunain, gyda phartner ac mewn grwpiau bychan;

    2. â diddordeb ac wedi'u hysgogi;

    3. yn medru datrys problemau corfforol;

    4. yn defnyddio termau priodol;

    5. yn gweithio'n ddiogel ac yn gyfrifol;

    6. yn parchu ei gilydd a'r athro.

- Mewn nifer o'r gwersi, roedd y disgyblion yn:

    1. medru disgrifio'n gywir beth roeddent hwy ac eraill yn ei wneud, ac yn medru awgrymu dulliau syml o wella;

    2. perfformio'n hyderus o flaen gwahanol gynulleidfaoedd.

C. SAFONAU CYRHAEDDIAD

- Byddai tystiolaeth anecdotaidd yr athrawon yn awgrymu bod safon gwaith y rhan fwyaf o blant wedi gwella'n bendant. At hynny, roedd yr athrawon o'r farn bod disgyblion yn llawer mwy awyddus i ddysgu yn eu gwersi AG.

- O ganlyniad i'r newidiadau yn y broses berthnasol, roedd dadansoddi adroddiadau arolwg Estyn, er mwyn mesur y cynnydd a wnaed, yn ddyrys. Er, mewn un ysgol lle'r oedd modd cymharu'r ddau arolwg diwethaf (2004 a 2009) yn realistig, bu gwelliant sylweddol - o foddhaol (CA1) a gradd 3 (CA2) yn 2004, i Radd 1 (Derbyn) a Gradd 2 yn CA1 a 2 yn 2009.

  (Dengys y graddau a gafwyd ar gyfer ysgolion eraill yn yr ALl, bod y safonau wedi gwella ers iddynt gyfranogi mewn AGChY.)

- Ym mhob/bron pob gwers, roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn:

1. dysgu gwybodaeth a sgiliau newydd;
2. perfformio gyda lefel resymol o densiwn a siâp clir;
3. creu dilyniannau/rhaglenni syml;
4. cario'r cyfarpar yn ddiogel;
5. mwynhau eu gwersi AG.

- Mewn nifer o'r gwersi, roedd y disgyblion yn:
    1. symud gyda rheolaeth;
    2. medru newid eu dilyniant/rhaglen yn briodol ar ôl iddynt gael adborth gan eu hathro;
    3. deall effaith ymarfer ar eu cyrff.
- Ym mron hanner y gwersi, roedd y disgyblion yn:
    1. ailadrodd symudiadau yn gywir;
    2. newid lefelau, cyflymder a chyfeiriadau eu dilyniannau/rhaglenni;
    3. gwneud gwerthusiadau fwyfwy dadansoddol;
    4. arddangos ystum corfforol da wrth sefyll ac eistedd;
    5. gweithio'n galed yn gorfforol.

- Mewn ychydig o'r gwersi, roedd y disgyblion yn perfformio dilyniannau a oedd yn llifo o un ystum i un arall;
- Mewn nifer fechan o'r gwersi,

    1. roedd y disgyblion mwy galluog yn perfformio i'w potensial;

    2. yn cymryd cyfrifoldeb am rannau penodol o'r wers e.e. cynhesu'r corff ar ddechrau'r wers.

CAMAU A ARGYMHELLIR

Dylai Chwaraeon Cymru wneud y canlynol:

1. talu sylw haeddiannol i ofynion dosbarthiadau o oedran cymysg wrth greu cyrsiau ac adnoddau;

2. yn eu cyrsiau, diwygio strwythur y '*RECIPE*' (acronym Saesneg) e.e. ychwanegu llythyren arall at yr acronym, er mwyn sicrhau bod sylw digonol yn cael ei dalu i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion newid a/neu wella eu dilyniannau wedi iddynt gael eu gwerthuso gan eu cyd-ddisgyblion;

3. yn eu cyrsiau, sicrhau nad oes gormod o bwyslais nac amser yn cael ei ddyrannu i werthusiadau disgyblion;

4. yn eu cyrsiau, sicrhau bod digon o bwyslais yn cael ei roi i annog y disgyblion mwy medrus i weithio i'w potensial llawn;

5. gwneud ymchwil i ganfod tystiolaeth ddilys a dibynadwy ynghylch effaith prosiect AGChY ar agweddau fel safonau, agweddau ac ymddygiad dysgu;

6. yn eu cyrsiau, sicrhau bod pwyslais digonol yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau athrawon i arsylwi a dadansoddi.

Dylai'r Awdurdod Lleol wneud y canlynol:

1. parhau i sefydlu prosiect AGChY ym mhrosesau cynllunio'r ALl;

2. annog y cydlynydd AGChY i gynyddu nifer y strategaethau ar gyfer monitro effaith y prosiect e.e. rhaeadru'r strategaethau a ddefnyddir, ymateb i gynlluniau gweithredu a gwblhawyd yn ystod yr amrywiol gyrsiau;

3. er mwyn annog mwy o gysondeb a dilyniant, dylid ceisio sicrhau bod canran uwch o athrawon yr ysgolion cynradd ac iau wedi mynychu Modiwl 2 o gwrs Gymnasteg a/neu fod y wybodaeth a geir ar gyrsiau yn cael ei raeadru yn fwy effeithiol;

4. ymestyn ymhellach y gwaith o gyflwyno rhaglen fentora strwythuredig ym mhob CDau gweithredol;

5. ystyried effaith yr athrawon sydd wedi cael hyfforddiant AGChY ond sydd wedi newid ysgol neu wedi gadael yr awdurdod;

6. ystyried cynyddu nifer y cyrsiau a drefnir ar gyfer dyddiau pan fo ysgolion ar gau;

7. ymchwilio i oblygiadau'r ysgolion cynradd a leolir yn Wrecsam ond sydd yn bwydo ysgolion uwchradd mewn awdurdod arall;

8 ystyried strategaethau o rannu datblygiadau arfaethedig y dyfodol o fewn y prosiect, i alluogi ysgolion i ymateb a chynllunio yn unol â hynny;

9. gwneud datblygu cynllun AGChY ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn un o'i flaenoriaethau;

10. ystyried strategaethau'r cynllun AGChY ar gyfer annog mwy o ddatblygiad a dilyniant yn y Cyfnod Sylfaen ac ymlaen i Gyfnod Allweddol 2;

11. cynyddu nifer yr athrawon ysgol gynradd sydd yn dod yn fentoriaid gweithredol yn y prosiect;

12. ystyried cynyddu'r cyfleoedd DPP mewn Dawns;

13. ystyried dyrannu cyllid er mwyn i wybodaeth o wahanol gyrsiau gael ei rhaeadru'n fwy effeithiol i aelodau eraill o'r staff;

14. ystyried rhoi cyfleoedd i athrawon cynradd i arsylwi ar safonau AG mewn ysgolion uwchradd;

15. ystyried strategaethau ar gyfer integreiddio'r ysgolion a'r CDau llai ymroddgar yn ehangach, yn y prosiect AGChY yn Wrecsam.

Lle y bo hynny'n briodol, dylai ysgolion wneud y canlynol wrth gynllunio ac addysgu:

1. o ran Iechyd, Ffitrwydd a Lles (IFfLl), sicrhau bod y canlyniadau dysgu yn cael eu mapio'n briodol; dylai'r canlyniadau hyn sicrhau cydbwysedd rhwng y pedwar cydran o faes IFfLl h.y. diogelwch, effaith ymarfer, manteision iechyd a hybu gweithgaredd;

2. rhoi mwy o gyfleoedd i'r rhai mwy galluog i weithio i'w potensial llawn;

3. datblygu strategaethau i annog y disgyblion i lunio rhaglenni / dilyniannau mwy gosgeiddig;

4. rhoi sylw i arsylwadau'r disgyblion;

5. gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau TGCh ac AGChY yn ystod y gwersi;

6. sicrhau nad oes gormod o bwyslais nac amser yn cael eu rhoi i werthusiadau disgyblion;

7. cynnwys cyfnodau addas i gynhesu ar ddechrau, ac ymdawelu ar ddiwedd gwersi;

8 wedi mynychu cyrsiau, gweithredu strategaethau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth i aelodau eraill o'r staff;

9. bod yn fwy parod i dderbyn cysyniad a phroses mentora;

Dymuna'r ymgynghorydd ddiolch i bawb a'i cynorthwyodd - swyddogion yr ALl, penaethiaid, athrawon, staff cefnogi a disgyblion - roedd pob un ohonynt, yn ddieithriad, yn gwrtais ac yn broffesiynol yn y modd y gwnaethant gyfrannu at y broses hon.

Yn gryno, mae AGChY yn gwneud cynnydd da, ac mae'n cael effaith sylweddol ar safonau AG ysgolion cynradd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

ATODIAD

ASTUDIAETHAU ACHOS A AWGRYMIR / ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

1. Brynteg - ‘AGChY a sut arbedodd arian ac amser i’r ysgol’.

2. Brynteg - ‘Cyfranogiad y Llywodraethwr AG dynodedig’.

3. Ysgol Iau Victoria -‘Defnyddio’r wybodaeth a gafwyd yng Nghwrs Arweinydd Pwnc AGChY i werthuso barn athrawon a disgyblion am AG’.

4. Ysgol Iau Victoria -‘Cwrs dawns ac adnoddau - sut wnaeth yr Arweinydd Pwnc ddarparu hyfforddiant i’r staff yn yr ysgol’.

5. Eyton - Llyfr Stori Gweithgareddau Anturus ar gyfer CA 1 a 2.